# HERRING, JOHN (1789 - 1832), gweinidog y Bedyddwyr

**Enw:** John Herring
**Dyddiad geni:** 1789
**Dyddiad marw:** 1832
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William Joseph Rhys

yn Bethania, Aberteifi; ganwyd ym mlwyf Trallwng, Brycheiniog, 8 Chwefror 1789, ond magwyd ef ym mhlwyf cyffiniol Llanspyddid. Gwasgedig oedd yr amgylchiadau wedi marw'i dad (1793) nes cafodd lysdad caredig yn 1800, a symud i Benycae, Mynwy. Bedyddiwyd ef yn Nhredegar yn 1804 a dechreuodd bregethu yn 1805. Ymsefydlodd yn Bethania, Aberteifi, 1811, ac yno y bu farw 2 Ebrill 1832. Meddai fwy o anhepgorion pregethwr mawr na neb yng Nghymru, meddai Christmas Evans. Yr oedd yn llywydd cymanfa'r de-orllewin, 1831-2, yn awdur y llythyr at yr eglwysi ar ' Sefyllfa crefydd yn ein plith,' ac yn olygydd *Greal y Bedyddwyr*.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


R. Edwards, *Hanes Bethania, Aberteifi* (Llandysul 1947), 29-41

*Seren Cymru*, 21 Ionawr 1949


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733444


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu